# GweithdaiAber:
## Drama a Theatr

**Dod â’n harbenigwyr academaidd ni at eich dysgwyr chi**



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Beth yw GweithdaiAber?

**Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.**

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio Drama a Theatr yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:

- **Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd**
- **Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr**
- 12-13 **Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13**
- **Ar gael dros y we**
- **Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg**
- **Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth**
- **Open to learners with no prior knowledge of the subject, as well as those with an interest in the field. Learners do not need to be studying Film, Television and Media in school or college**

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

# Cyflwyniad i'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

**Mae ein rhaglenni israddedig mewn Drama a Theatr yn ymdrin â'r pwnc yn y modd mwyaf eang posibl. Gan ganolbwyntio ar ymarfer perfformio cyfoes gyda golwg byd-eang, mae ein gradd yn caniatáu i fyfyrwyr astudio ystod o arddulliau perfformio a ffurfiau theatrig, o waith corfforol dyfeisiedig i berfformiadau safle-benodol, o ddramâu Brechtaidd i ddramatwrgiaeth y sioe gerdd ac arbrofion mewn cyfryngau newydd.**

Wedi'i wreiddio yn nhraddodiad nodedig Aberystwyth o greu perfformiadau arloesol a radical, mae'r cwrs yn cydblethu theori ac ymarfer mewn ffyrdd creadigol. Ar ôl dathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Adran yn 2023, rydym yn parhau ein traddodiad balch o addysgu arloesol, gan gyfuno safbwyntiau hanesyddol, diwylliannol, a gwleidyddol yn yr astudiaeth o theatr a pherfformio.

Cydnabyddir ein staff yn rhyngwladol fel arbenigwyr, yn berfformwyr, yn gyfarwyddwyr, yn senograffwyr, ac yn academyddion sydd yn torri cwys newydd ym myd theatr gyfoes a pherfformio. Adlewyrchir eu harbenigedd yn ein hystod amrywiol o weithdai, a gynlluniwyd i feithrin sgiliau ymarferol, hyder creadigol, ac ymwybyddiaeth feirniadol eich disgyblion.

Mae ein haddysgu yn rhoi pwyslais ar arloesedd ffurfiol, gan groesawu datblygiadau technolegol, ac annog hyngddisgyblaethedd. Golyga hyn bod ein graddedigion yn barod ar gyfer y diwydiannau creadigol astudiaethau pellach, a'r byd gwaith tu hwnt.



# GweithdaiAber
# Drama a Theatr

## 'But what does it mean?' Making Meaning in Theatre and Performance

EN MP Rh

Sut ydyn ni'n gwneud synnwyr o theatr? Bydd y gweithdy yma'n yn trafod sut mae cynulleidfaoedd yn dehongli ac yn creu ystyr wrth wylio o theatr a pherfformiadau byw. Gan ddefnyddio enghreifftiau o waith Artaud, Stanislavski a Brecht, nod y gweithdy fydd yw helpu disgyblion i ysgrifennu adolygiadau ac ymatebion mwy craff o'u profiadau eu hunain o theatr a pherfformiadau byw yn ogystal â'u helpu i fyfyrio ar eu gwaith o greu perfformiadau sy'n seiliedig ar destun a pherfformiadau dyfeisiedig.

## Theatr Brechtaidd a'i gwaddol

CY EN MP Rh

Bydd y sesiwn yn edrych ar rai o egwyddorion allweddol theatr epig Brecht a'i ddrama 'The Caucasian Chalk Circle'. Yna bydd yn edrych ar waddol Theatr Epig trwy ystyried Theatr Fforwm Augusto Boal.

## Creu Cymeriad

EN MP Rh

Bydd y gweithdy ymarferol hwn yn edrych ar wahanol ffyrdd o greu, datblygu a mireinio cymeriad ar gyfer nifer o wahanol ffurfiau ar theatr. Mae ar gael mewn fersiwn 45 munud neu fersiwn 90 munud; a gellir ei gyflwyno mewn ysgolion neu yn yr Adran.

Gall y gweithdy hwn roi pwyslais ar waith byrfyfyr, neu ar waith ar destunau penodol a baratowyd ymlaen llaw. Bydd yn defnyddio technegau sylfaenol Stanislavski (gan ddechrau o unedau ac amcanion, a rhythm a thempo) a Brecht (gan ddechrau o naratif trydydd person). Gellir addasu lefel cymhlethdod yr ymarferion ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn. Yn ddelfrydol, byddai'r gweithdy'n cael ei gyflwyno i grwpiau o 10-14 o ddisgyblion, ond gellir gwneud addasiadau ar gyfer dosbarthiadau sy'n fwy neu'n llai o faint. Cysylltwch ymlaen llaw, yn enwedig yn achos dosbarthiadau mwy.

## Devising with Movement

EN MP

Bydd y gweithdy hwn/y ddarlith hon yn cyflwyno geirfa symudiadau o'r enw 'In All Languages', a sut i ddefnyddio'r eirfa hon fel man cychwyn mewn proses ddyfeisio.

## Composing and Directing with Viewpoints

EN MP

Mae'r gweithdy ymarferol hwn yn cynnig cyflwyniad i'r dull Viewpoints, sef modd o ('The Viewpoints'), sef dull o ddyfeisio a hyfforddi perfformwyr a ddatblygwyd gan Anne Bogart a Tina Landau. Mae'r 'Viewpoints' yn cynnig ffyrdd o feddwl am actio, symud, cydweithio a chyfansoddi a all gyfoethogi gallu myfyrwyr i greu perfformiadau yn seiliedig ar destun ac wedi'u dyfeisio. Gellir teilwra'r gweithdy hwn i anghenion gwahanol grwpiau.

## Dramatwrgiaeth Sioeau Cerdd

CY EN MP Rh

Beth sy'n gwneud sioe gerdd effeithiol? Drwy edrych ar wahanol enghreifftiau, bydd y sesiwn hon yn ystyried yn feirniadol strwythur sioeau cerdd, yn ystyried arwyddocâd y gwahaniaeth rhwng deialog a chân, ac yn archwilio sut mae dramatwrgiaeth benodol y sioe gerdd yn sicrhau bod y gynulleidfa'n cael noson dda.

### Allwedd:

- **EN** Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- **CY** Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- **MP** Gellir ei gyflwyno mewn person
- **Rh** Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

i I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

## Edrych ar Gynyrchiadau Theatr Amlgyfrwn

CY EN MP Rh

Bydd y gweithdy hwn yn cynnig trosolwg eang o nifer o gynyrchiadau theatr a chyfryngol cyfoes sy'n cyfuno perfformio a gwaith fideo. Bydd yn edrych ar waith perfformwyr, cyfarwyddwyr, dylunwyr a thechnegwyr wrth greu cynyrchiadau amlgyfrwng. Byddwn yn edrych ar waith cwmnïau theatr ac artistiaid megis The Wooster Group, Katie Mitchell, Eddie Ladd, Rimini Protokoll a Gob Squad; ac ar ffilmiau/rhaglenni megis Russian Ark (Sokurov), 1917 (Sam Mendes), Black Mirror: Bandersnatch (Charlie Brooker) a Five Dates (Raschid).

Addas ar gyfer Blynyddoedd 10-13: mae rhywfaint o'r deunydd yn cynnwys arswyd a braw. Bydd y gweithdy tua 60 munud o hyd, ond gellir teilwra'r cynnwys i hyd y dosbarth. Cysylltwch â'r Adran ymlaen llaw os oes gennych unrhyw anghenion o ran sesiwn fyrrach neu hirach.

## Gweithdy Adolygu Theatr

CY EN MP Rh

Sut mae mynd ati i ddehongli a gwerthuso darn o theatr? Sut mae modd gwahaniaethu rhwng cynhyrchiad sydd yn 'dda' a chynhyrchiad sydd yn 'wael'? Trwy ddefnyddio'r cwestiynau hyn fel man cychwyn, bydd y gweithdy hwn yn helpu i ddatblygu eich llais beirniadol trwy ysgrifennu adolygiad theatr byr.

## Improvising with Body and Voice

EN MP

Mae'r gweithdy ymarferol bywiog hwn yn cynnig pecyn cymorth hawdd ei ddeall i fyfyrwyr ar gyfer gwneud perfformiadau byrfyfyr sy'n seiliedig ar symudiadau, a hynny'n unigol neu mewn grŵp. Gan ddechrau drwy ymdrin â phosibiliadau mynegiannol symudiadau a defnyddio'r llais bydd y gweithdy'n helpu myfyrwyr i ddefnyddio gofod, gwneud penderfyniadau, a myfyrio ar eu diddordebau eu hunain fel gwneuthurwyr theatr. Gellir teilwra'r gweithdy hwn yn unol â phrofiad, anghenion a mentrusrwydd gwahanol grwpiau.

## Cyflwyniad i Berfformiad Safle-benodol

CY EN MP Rh

Bydd y gweithdy hon yn cyflwyno'r hyn a olygwn gan Berfformiad Safle-Benodol. Beth yw milltir sgwâr eich plentyndod a sut allem ddefnyddio hyn fel man cychwyn mewn proses sy'n seiliedig ar safle?

## On Dramaturgy

EN MP

Bydd y sesiwn yn edrych ar y cysyniad o ddramatwrgiaeth ac yn meddwl trwy rai o'r ffyrdd y mae'n berthnasol i enghreifftiau cyfoes a hanesyddol theatr. Bydd rhai o'r astudiaethau achos yn cynnwys gwaith gan Mike Pearson a Mike Brookes, Katie Mitchell, Frantic Assembly, Circumstance, Punchdrunk.

## Unlocking Creativity: The Power of Drama and Theatre for Future Careers

EN MP Rh

Bydd y sgwrs hon yn ysbrydoli disgyblion i ddarganfod sut mae astudio drama a theatr yn meithrin sgiliau hanfodol - megis meddwl yn greadigol, cyfathrebu, a datrys problemau - sy'n gynyddol werthfawr yn y byd gwaith heddiw. Trwy drafod potensial y sgiliau trosglwyddadwy hyn yn y byd go iawn, bydd disgyblion yn meithrin yr hyder i ddilyn eu diddordebau ac ystod eang o gyfleoedd yn y dyfodol.

### Allwedd:

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

i I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**




Adran Astudiaethau Theatr,
Ffilm a Theledu,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Parry-Williams,
Aberystwyth, SY23 3AJ

+44 (0) 1970 62 1537
tfts@aber.ac.uk
/AberystwythTFTS
@aberystwythtfts

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan yr Adran
Farchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

111865-01.25
Credyd delweddaeth: freepik.com/stories